# HOLIADUR
# ÔL-AROLYGU

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Bydd yr holiadur hwn yn cyfrannu at weithdrefnau Estyn ar gyfer asesu ansawdd arolygiadau

## GWYBODAETH GEFNDIR

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ysgol /Darparwr:** | |
| **Sector:** | |
| **Cyfeirnod:** | |
| **Enw'r Arolygydd Cofnodol (AC):** | |
| **Enw'r Contractiwr (lle y bo'n berthnasol):** | |
| **Dyddiadau'r arolygiad:** | |
| **Dyddiad derbyn yr adroddiad terfynol:** | |

---

### Arweiniad ar ddiben a defnydd yr holiadur hwn

Diben yr holiadur hwn yw galluogi Estyn i gasglu gwybodaeth am ansawdd ei waith arolygu. Dadansoddir y canlyniadau a chânt eu defnyddio i lywio ein gwaith hyfforddi a datblygu. Mae holiaduron ôl-arolygiad yn darparu gwybodaeth sicrhau ansawdd werthfawr i ni ac i'r contractwyr arolygu ysgolion. Bydd Estyn yn nodi ac yn cymeradwyo arfer ragorol sy'n cael ei hamlygu gyda'r holiaduron ôl-arolygiad yn ogystal ag olrhain y rheini sy'n nodi anfodlonrwydd sylweddol neu bryderon am ein gwaith. Ni fydd anfodlonrwydd a fynegir ar yr holiaduron ôl-arolygiad yn cael ei gofnodi fel cwyn.

Nid ydym yn rhagweld unrhyw anawsterau yn ystod yr arolygiad, fodd bynnag, os bydd problemau yn codi mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu trin pan fyddant yn digwydd neu mor fuan â phosibl wedi hynny. Mae Estyn yn argymell codi unrhyw bryderon gyda'r tîm arolygu ar adeg yr arolygiad er mwyn caniatáu eu datrys yn gynnar.

Os byddwch yn dal yn anfodlon ar ôl ceisio datrys y mater yn anffurfiol dylech ysgrifennu at y contractwr ar unwaith, ar gyfer arolygiad ysgol ar gontract, neu at Reolwr Adborth a Chwynion Estyn ar gyfer pob math arall o arolygiad.

Ceir arweiniad ynghylch gwneud cwyn yn ein taflen Adborth a Chwynion sydd ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk, yna ewch i Croeso i Estyn/Am Estyn/Trefn Adborth a Chwynion. Os bydd angen mwy o gyngor arnoch, cysylltwch â'r Rheolwr Adborth a Chwynion yn Estyn ar 02920 446446.

## CYNNAL A CHYNLLUNIO'R AROLYGIAD

(Ticiwch y blwch priodol)

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Roedd y fframwaith arolygu ac arweiniad arall o gymorth i ni wrth baratoi ar gyfer yr arolygiad. | | | | | | |
| 2. Roedd y gofynion a'r trefniadau'n rhesymol. | | | | | | |
| 3. Roedd cwmpas, gweithdrefnau ac arferion yr arolygiad yn glir. | | | | | | |
| 4. Gwnaeth yr AC drefniadau effeithiol ar gyfer cyfieithu mewn cyfarfodydd cyhoeddus, lle'r oedd angen. | | | | | | |
| 5. Gwnaeth yr AC drefniadau effeithiol ar gyfer cyfieithu'r adroddiad lle'r oedd angen. | | | | | | |
| 6. Trafodwyd a chytunwyd ar rôl yr enwebai (lle y bo'n briodol). | | | | | | |
| 7. Roedd y tîm arolygu wedi paratoi'n dda ar gyfer yr arolygiad. | | | | | | |
| 8. Roedd yr arolygwyr yn gymwys i arolygu'r meysydd addysg a/neu hyfforddiant a gynigir. | | | | | | |
| 9. Lle'r oedd yn berthnasol, roedd yr arolygwyr yn gymwys i arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg. | | | | | | |
| 10. Roedd unrhyw geisiadau a wnaeth yr arolygwyr am wybodaeth ychwanegol yn ystod yr arolygiad yn rhesymol. | | | | | | |
| 11. Sefydlodd yr AC berthynas waith dda gyda ni a budd-ddeiliaid eraill. | | | | | | |
| 12. Roedd yr arolygwyr yn ymddwyn yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y fframwaith cyffredin. | | | | | | |
| 13. Roedd digon o gyfleoedd i ddysgwyr a budd-ddeiliaid hysbysu'r tîm arolygu ynghylch eu barnau. | | | | | | |
| 14. Rhoddodd yr arolygwyr adborth buddiol yn ystod yr arolygiad trwy nodi nodweddion da a diffygion. | | | | | | |

| | Cytuno'n gryf | Cytu-no | Ddim yn cytuno nac yn anghytu-no | Anghytu-no | Anghytu-no'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|

**SYLWADAU:**

## CANFYDDIADAU A BARNAU AROLYGIADAU

| | Cytuno'n gryf | Cytu-no | Ddim yn cytuno nac yn anghytu-no | Anghytu-no | Anghytu-no'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15. Cyfrannodd yr asesydd/aseswyr cymheiriaid yn llawn at yr arolygiad (lle y bo'n briodol). | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 16. Edrychodd yr arolygwyr ar ddigon o dystiolaeth i lunio barnau dilys. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 17. Mae canfyddiadau'r arolygiad yn rhoi syniad teg a chlir o'n gwaith. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 18. Ceir cydweddu agos rhwng yr adborth llafar a'r adroddiad ysgrifenedig. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 19. Rhoddwyd digon o gyfleoedd i ni wneud sylwadau ar yr adroddiad drafft. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**SYLWADAU:**

## CYFRANIAD YR AROLYGIAD A'R ADRODDIAD AT WELLA DARPARIAETH

| | Cytuno'n gryf | Cytu-no | Ddim yn cytuno nac yn anghytu-no | Anghytu-no | Anghytu-no'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20. Defnyddiwyd adroddiad hunanarfarnu'r darparwr yn briodol fel sylfaen a man cychwyn ar gyfer yr arolygiad. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 21. Rhoddodd yr arolygwyr ddigon o gyfleoedd i ni egluro a thrafod canfyddiadau'r arolygiad. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 22. Roedd yr adborth llafar yn nodi nodweddion da, diffygion a meysydd ar gyfer gwella yn glir. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 23. Roedd yr arolygiad o gymorth i ni gynllunio ar gyfer gwella. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

24. Mae’r adroddiad yn glir ac yn hawdd ei ddarllen. ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

**SYLWADAU:**

## CASGLIAD

| | Cytuno'n gryf | Cytu-no | Ddim yn cytuno nac yn anghytu-no | Anghytu-no | Anghytu-no'n gryf | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25. Roeddem yn fodlon ag ansawdd cyffredinol yr arolygiad. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

LLOFNODWYD: ____________________ ____________________ (Swydd)

DYDDIAD ______________________

**Diolch yn fawr am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur hwn. Dychwelwch hwn ymhen pedair wythnos o gael Adroddiad yr Arolygiad at:**

**Alan Davies**
**Tîm Cynllunio**
**Estyn**
**Llys Angor**
**Heol Keen**
**Caerdydd**
**CF24 5JW**

**Yn ogystal, os yw eich ysgol yn cael arolygiad ar gontract, bydd Estyn yn sicrhau bod copi o'r holiadur hwn yn cael ei anfon at y contractwr a drefnodd yr arolygiad.**